

"Dwi'n ystyried mynd i weithio'n rhan-amser oherwydd llwyth gwaith. Pa gyngor sydd gennych i mi?"

Mae llwyth gwaith gormodol yn fater difrifol a chyn penderfynu lleihau eich oriau a mynd i weithio'n rhan-amser, byddem yn eich hargymell i gael trafodaeth gyda'ch pennaeth parthed lleihau llwyth gwaith.

Gofynnwch i Gynrychiolydd UCAC yn eich gwethle drefnu cyfrafod undeb i drafod y mater. Gall y Cynrychiolydd gyflwyno copi o adroddiad UCAC am [Faterion Llwyth Gwaith](#) i'ch pennaeth / tîm arwain ar ran yr aelodau, i'w ystyried yng nghyd-destun eich gweithle. Gall hefyd ofyn i'r pennaeth drefnu trafodaeth am lwyth gwaith yn ystod cyfarfod staff, e.e. beth sydd yn achosi'r llwyth gwaith mwyaf yn eich gweithle? A oes unrhyw dasgau sydd y creu llwyth gwaith swpus ond heb gael llawer o effaith ar gyrhaeddiad. Cysylltwch ag UCAC neu ewch i'r wefan am syniadau am beth i gynnwys yn eich trafodaeth am lwyth gwaith (www.ucac.cymru/llwythgwaith); mae'n bwysig trafod yn agored gan fod yn sensitif i lwyth gwaith eraill, gan gynnwys y pennaeth a Chynrychiolydd UCAC. Os ydych dal yn awyddus i leihau eich oriau, mae rhai pethau sydd angen i chi eu hystyried a chamau penodol fydd angen i chi eu dilyn wrth gyflwyno cais.

Ers 30 Mehefin 2014 mae gan unrhyw weithiwr yr hawl statudol i gyflwyno cais am gael gweithio'n hyblyg. Mae'n ofynnol i'r cyflogwr ddelio â'r cais mewn modd rhesymol ac, os yn gwrthod, i roi rhesymau busnes clir pam na ellir ei ganiatáu. Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i'r sawl sy'n cyflwyno cais fod:

- yn weithiwr cyflogedig
- wedi gwasanaethu ei gyflogwr am 26 wythnos yn olynol
- heb wneud cais arall yn y 12 mis diwethaf

Rhaid i gais ffurfiol fod yn un ysgrifenedig wedi ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethol, gyda chopi i'r pennaeth, a dylid nodi:

- dyddiad cyflwyno'r cais
- datganiad ei fod yn gais ffurfiol yn ôl yr hawl statudol i gyflwyno cais i weithio'n hyblyg
- os, a phryd, y cyflwynwyd cais blaenorol
- y newid y gofynnir amdano
- pryd y byddai'r newid yn weithredol
- effaith bosib, ym marn y sawl sy'n gwneud y cais, caniatáu'r cais
- sut y gellid delio a dygymod ag effaith caniatáu'r cais

Mae'n rhaid i geisiadau i newid oriau gweithio gydymffurfio â gofynion y contract cyflogaeth. Er mwyn gwneud cais i'r newid gychwyn y tymor canlynol, dylid cyflwyno cais dri mis cyn diwedd tymor yr haf (31 Mai) a dau fis cyn diwedd tymhorau'r hydref a'r gwanwyn (31 Hydref a 28/29 Chwefror) ond mae rhoio cymaint o rybudd a phosib yn gymorth i ffeindio rhywun i rannu'r swydd

Am ragor o wybodaeth gweler taflen UCAC: [Gwneud cais i weithio'n hyblyg](#)

Mae'n ofynnol i athrawon rhan amser fod ar gael am y cyfnod *pro rata* o'r 1265 o oriau cyfeiriedig (*directed time*) y flwyddyn y disgwylir i athrawon llawn amser fod ar gael. Mae'r amser yma'n cynnwys addysgu, mynychu cyfarfodydd, dyletswyddau egwyl, hyfforddiant mewn swydd ac unrhyw weithgaredd lle mae'r athro'n cael ei gyfarwyddo gan y pennaeth i fod ar gael i weithio.

Caiff athrawon rhan amser eu talu *pro rata*, hynny yw, yn ôl y gyfran gyfatebol o'r cyflog a'r lwfansau y byddent yn eu hennill pe baent yn gyflogedig llawn amser.

Am ragor o wybodaeth gweler taflen UCAC: [Gweithio'n rhan amser: tâl ac amodau gwaith athrawon ysgol](#)

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach sy'n ymwneud â'ch sefyllfa bersonol chi, dylid cael sgwrs gydag un o Swyddogion Maes UCAC ar 01970 639 950.